**WHC (2026) 018**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Statws:** Gwybodaeth – dyletswyddau statudol sy'n gymwys

**Categori:** Deddfwriaeth / Iechyd y Cyhoedd

## Teitl: Nodyn Atgoffa o Ddyletswyddau Statudol o dan y Rheoliadau Hysbysu am Glefydau Heintus (Cymru)

**Dyddiad dod i ben / Dyddiad adolygu:** amherthnasol

**Er gwybodaeth:**

Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru
Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio/Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Cyfarwyddwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru
Ymarferwyr Cyffredinol
Cyfarwyddwyr Therapïau a Gwyddor Iechyd
Darparwyr Gofal Iechyd Preifat

**I'w weithredu erbyn:** Ar unwaith

**Anfonwyd gan:** Dr Keith Reid, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol (Iechyd y Cyhoedd), Sioned Rees, Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru

**Enwau Cyswllt yn Llywodraeth Cymru:**
Diogelu Iechyd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
DiogeluIechyd@llyw.cymru

**Dogfennau amgaeedig:** Atodiad 1 a 2.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

Diben

Cyhoeddir yr wybodaeth hon fel nodyn atgoffa i sefydliadau'r GIG yng Nghymru o'u dyletswyddau statudol o dan y ddeddfwriaeth hysbysiadau iechyd y cyhoedd, ac o rôl hysbysu yn amserol wrth gefnogi camau diogelu iechyd effeithiol.

Fframwaith Cyfreithiol

Caiff y weithred o hysbysu am glefydau heintus yng Nghymru ei llywodraethu gan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 (“Rheoliadau 2010”), fel y'u diwygiwyd.

Mae Rheoliadau 2010 yn gosod dyletswyddau cyfreithiol ar ymarferwyr meddygol cofrestredig a labordai diagnostig i hysbysu am wybodaeth benodedig sy'n ymwneud â chlefydau hysbysadwy a chyfryngau achosol. Mae'r rhestr gyfredol o Glefydau Hysbysadwy o dan Reoliadau 2010 wedi'i rhestru yn Atodiad A.

Rolau a Chyfrifoldebau yng Nghymru

Rhaid i ymarferwyr meddygol cofrestredig hysbysu am achosion a amheuir o glefyd hysbysadwy i Swyddog Priodol yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae'r claf yn byw ynddi, neu fel y nodir fel arall yn y Rheoliadau[1].

Rhaid i labordai diagnostig hysbysu Swyddog Priodol yr awdurdod lleol perthnasol am gyfryngau achosol penodedig a nodwyd drwy brofion diagnostig.

Yng Nghymru, mae Swyddogion Priodol awdurdodau lleol yn cyflawni eu swyddogaethau mewn partneriaeth weithredol agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cynnal prosesau gwyliadwriaeth diogelu iechyd, asesu risg ac ymateb ar ran y GIG yng Nghymru.

Mae hysbysiadau a wneir o dan Reoliadau 2010 yn fecanwaith hanfodol ar gyfer rhybuddio Iechyd Cyhoeddus Cymru ac awdurdodau lleol am fygythiadau posibl i iechyd, gan alluogi ymchwiliad amserol, mesurau rheoli, a diogelu ar lefel y boblogaeth.

Disgwyliadau Gweithredol

Disgwylir i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG sicrhau bod:

- clinigwyr a staff labordy yn ymwybodol o'u dyletswyddau hysbysu statudol;
- hysbysiadau yn cael eu gwneud yn brydlon gan ddefnyddio trefniadau cenedlaethol a lleol sefydledig;
- trefniadau llywodraethu a sicrwydd lleol yn cefnogi cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau;
- llwybrau diogelu iechyd sefydledig sy'n cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddogion Priodol awdurdodau lleol yn cael eu dilyn.

Camau i'w cymryd

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru:

[1] Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010

1. Nodi'r nodyn atgoffa hwn o'r dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â hysbysu am glefydau heintus;
2. Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Hysbysu drwy bolisïau lleol priodol, hyfforddiant, a mecanweithiau sicrwydd.

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am drefniadau hysbysu a rolau diogelu iechyd yng Nghymru ar gael drwy dîm Gwasanaeth Ymateb Acíwt Cymru Gyfan (AWARe) Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau diogelu iechyd awdurdodau lleol.

**Rhestr gyfredol o Glefydau Hysbysadwy o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010"), fel y'u diwygiwyd.**[2]

Anthracs
Botwliaeth
Brwselosis
Colera
Clefyd Coronafeirws 2019 (COVID-19)
Difftheria
Enceffalitis (acíwt)
Twymyn enterig (twymyn tyffoid neu paratyffoid)
Gwenwyn bwyd
Syndrom wremig hemolytig (HUS)
Dolur rhydd gwaedlyd heintus
Hepatitis heintus (acíwt)
Clefyd streptococol grŵp A mewnwthiol a'r dwymyn goch
Clefyd y llengfilwyr
Gwahanglwyf
Malaria
Y frech goch
Llid yr ymennydd (acíwt)
Septisemia meningococol
Brech y mwncïod
Clwy'r pennau
Y pla
Poliomyelitis (acíwt)
Y gynddaredd
Rwbela
Syndrom anadlu acíwt difrifol (SARS)
Y frech wen
Tetanws
Twbercwlosis
Tyffws
Twymyn gwaedlifol firysol (VHF)
Y pas
Y dwymyn felen

[2] Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010